

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Gorffennaf 6ed 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Bethan Thomas, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans a Gary Thomas.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

i) Dŵr yn rhedeg ar draws y ffordd tuag at mynedfa Ysgol Ffridd y Llyn - roedd archwilydd priffyrdd Cyngor Gwynedd am ymweld â'r safle pan fydd mwy o law i weld lle oedd gwraidd y broblem.

ii) Cais am ganllaw newydd ar un o lwybrau troed ar stad Tan y Foel, Llanfor – roedd y clerch yn dal i aros am ymateb gan Adra, cytunwyd i ofyn i'r Cyng. Elwyn Edwards am gymorth gyda'r mater.

b) Mynwentydd.

Cadarnhaodd y clerch fod y bin newydd wedi cyrraedd mynwent Frongoch ond doedd y contractwr heb gychwyn ar y gwaith yno eto. Roedd y clerch yn dal i aros am brisiau trwsio giatiau mynwent Llandderfel, cytunwyd i ofyn i gwmni arall am bris.

c) Les newydd i Barc Chwarae Frongoch.

Cytunwyd i arwyddo'r cytundeb newydd a derbyn eu cynnig i dalu'r rhent mewn un swm (10 x £1) yn hytrach na £1 unigol y flwyddyn.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Gwaharddiad Trafnidiaeth yn Llanfor ar yr 23/06/21.

ii) Gwaharddiad Trafnidiaeth ym Methel ar yr 23/06/21.

b) Llywodraeth Cymru.

i) Ymgynghoriad ar Reoliadau Cymwysterau Clercod yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Clerch gwblhau holiadur.

ii) Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor y Senedd hon ynghyd â'r Datganiad Llesiant cysylltiedig.

c) Amrywiol.

i) Cadwch Gymru'n Daclus – Pecyn gardd am ddim.

ii) Cyngor Tref Nefyn - Creu memorandum o ddealltwriaeth ynglŷn â Polisi Iaith. Cytunwyd i gadarnhau fod gan y Cyngor ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y drafodaeth.

iii) Cyngor Cymuned Pistyll – problem parcio 'campervans'. Cytunwyd i gefnogi cais y Cyngor Cymuned i bwysu ar Cyngor Gwynedd i greu strategaeth i ddelio â'r broblem.

iv) Mabon Ap Gwynfor - diogelwch ar yr A494, Glanrafon i Ddwyryd. Cytunwyd i'r awgrym fod y Cyngor yn nodi eu pryderon ar wefan Gan Bwyll fel man cychwynnol i geisio lleihau'r nifer o ddamweiniau ar y A494.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

C21/0427/04/DT - Gwaith dymchwel ac ymestyn gydag addasiadau i dy annedd ac adeiladau cwrtil. Cae Wlff, Llandderfel.

C21/0552/04/LL – Creu gardd newydd a thirlunio, codi porth i 3 car, codi ty haf, gosod tanc LPG ac ail godi ac ail doi ty bach allanol. Garth Lwyd, Llandderfel.

C21/0531/04/LL - Newid defnydd a throsi adeiladau allanol domestig i ffurfio unedau gwyliau i'w gosod (3 uned) Bodwenni Hall, Llandderfel.

Nid oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r ddau gais gyntaf ond gyda chais Bodwenni cytunwyd i nodi pryder y Cyngor am ddiogelwch y fynedfa oherwydd y cynnydd mewn trafndiaeth gyda'r datblygiad newydd.

vi) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Mehefin a chafwyd yn gywir.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebr-Meh), TWE, ad-daliad i'r clerc (cofrestr mynwent) a Chyngor Gwynedd (rhent parc chwarae Frongoch).

c) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd cais gan Hosbis Dewi Sant ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i aros tan y cyfarfod nesaf i'w drafod.

vii) Materion lleol.

a) Neuadd Sarnau.

Wedi iddi ddod i'r amlwg fod hen gytundeb mewn lle ar gyfer Neuadd Sarnau gyda Chyngor Gwynedd yn enw'r Cyngor Cymuned, cytunwyd fod angen cynnal trafodaeth gyda phwyllgor y Neuadd er mwyn creu dogfen swyddogol rhwng y Cyngor Cymuned a'r pwyllgor.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwyn canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd

i) Llwybr troed Llwyn Iolyn - camfeydd ac arwyddion wedi malu a weiren bigog ar draws y ffens.

ii) Gwasanaeth torri gwrychoedd - nodwyd canmoliaeth i'r contractwr torri gwrychoedd am ei waith yn yr ardal. Nodwyd fod gwrychoedd rhwng Wern Fawr a chyffordd ffordd Rhiwlas yng Nghwmtirmynach angen toriad ychwanegol (cyfrifoldeb y tiffeddiannwr) gan fod gwelededd yn sâl yno wrth i'r ffordd gulhau. Nodwyd fod ambell i dwll a draen ar yr B4501 angen sylw hefyd.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 7fed am
7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.**